# Cofnodion Cyfarfod
# Cyngor Cymuned Pistyll

Nos Fawrth 10feg o Mawrth, 2020 am 7:00y.h

Cadeirydd: Y Cyng. Sara Williams



| | | |
|---|---|---|
| **1.** | | **Presenoldeb** |
| | 1.1 | **Presennol -** Sara Williams **(SW),** Ynyr Ellis **(YE)**, Griffith Jones **(GO),** Gwilym Williams **(GW)**, Lisbeth James **(LJ)**, Sianelen Pleming **(SP)**, John Owen **(JO),** Cyng. Aled Jones **(AJ)** Emlyn Hughes **(EH)**. |
| | 1.2 | **Ymddiheuriadau -** William Jones **(WJ),** Olwen Roberts **(OR).** |
| **2.** | | **Hysbysiadau'r Cadeirydd**<br>Diolchodd y Cadeirydd am garedigrwydd **GW** a sefyll fel Cadeirydd fis diwethaf, aeth ymlaen i groesawu pawb i'r cyfarfod. |
| **3.** | | **Datgan diddordeb**<br>Dim |
| **4.** | | **Diweddariadau asedau**<br>Derbyniwyd cais gan **SP** ar ran y ganolfan fod y gysgodfa'n yn cael ei addasu a'i ddefnyddio fel cwt er lles y ganolfan i ddal byrddau ac yn y blaen - Cynigiodd **JO** gefnogi'r cais, eiliodd **GW** a chytunodd pawb.<br>Ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau pellach. |
| **5.** | | **Cofnodion Cyfarfod Chwefror, 2020** |
| | ***5.1*** | **Cyflwyno a mabwysiadu**<br>Cynigiodd **JO** gywirdeb y Cofnodion, eiliodd **LJ** a chytunodd pawb. |
| | ***5.2*** | **Materion yn codi** |
| | *5.2.1* | **Tramwyo i'r Nant**<br>Gofynnwyd yn ystod y cyfarfod i'r Clerc gysylltu â'r Swyddog Llwybrau i weld os yw hawliau tramwyo i'r Nant wedi ei newid.<br>Derbyniwyd linc gan y Swyddog Llwybrau i dudalen llwybrau'r Cyngor Sir ac fe'u rhannwyd gyda'r aelodau. Nid oedd ateb amlwg i'w gael o'r wybodaeth a dderbyniwyd. Cytynodd yr Aelod Lleol ddilyn y mater ymhellach. |

**Commented [GT1]:**

**Commented [GT2R1]:** Wedi ei yrru ymlaen angen Gofyn am ddiweddariad gan aled

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad.....................................................*

*Clerc Cyngor Cymuned Pistyll: Gillian Thomas*
*1 Y Dreflan, Rhosgadfan, Caernarfon Gwynedd. LL54 7HP*
*E.bost: ccpistyll@outlook.com*
*Ffon symudol: 07979438307*

| | | |
|---|---|---|
| | *5.2.2* | **Cais am wybodaeth i Adran Treth y Cyngor Sir**<br>Derbyniwyd cais gan **GW** i ddarganfod faint o dai sydd yn talu treth i'r Cyngor a faint sy'n talu treth busnes ar safle Plas Pistyll.<br>Esboniodd y Clerc ei bod wedi cysylltu ond heb dderbyn unrhyw ymateb. Y Clerc i gysylltu eto. |
| | *5.2.3* | **Gwrych yr Hen Eglwys**<br>Pleser mawr oedd cadarnhau bod y gwrych wedi ei docio o'r diwedd. |
| **6.** | | **Ceisiadau Cynllunio**<br>**Cais/App Ref: C20/0056/43/DT - Angorfa, Pistyll Terrace, Pistyll, Pwllheli, Gwynedd, LL53 6LS**<br><br>Y Clerc wedi cysylltu â Chyngor Gwynedd yn gofyn am estyniad i ymateb ond heb dderbyn dim ond cadarnhad o dderbynneb i'r e.bost.<br>Wedi trafodaeth cytunodd yr aelodau nid oedd gwrthwynebiad i'r cais, y Clerc i hysbysu'r Cyngor Sir. |
| **7.** | | **Ceisiadau am roddion**<br>Roedd amryw o geisiad i'w cysidro. Yn dilyn trafodaeth penderfynwyd:<br><br>• £705.61 i'r Cae chwarrau - **YE** yn cynnig ac **LJ** yn eilio<br>• £600.00 i Gŵyl Ifan - **LJ** yn cynnig ac **GJ** yn eilio<br>• £3,000.00 Canolfan Llithfaen – **JO** yn cynnig ac **YE** yn eilio<br>• £150 Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl – **JO** yn cynnig ac **LJ** yn eilio<br>• £500 i Bwyllgor Apêl Cronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol - **GW** yn cynnig ac **LJ** yn eilio |
| **8.** | | **Y Ganolfan**<br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi cysylltu â'r Swyddog Priodol o'r Cyngor yn gwneud cais i symud ymlaen ac i dderbyn y ddogfen wreiddiol er mwyn cael ei llofnodi ond hyd yn hyn heb dderbyn ymateb.<br>Y Clerc i gysylltu ymhellach.<br>Roedd cais gan **SP** ar ran Iolo fod y gysgodfa tu allan i'r ganolfan yn cael ei ddefnyddio fel cwt ar les y ganolfan i ddal byrddau – Cytunodd pawb yn bresennol |
| **9.** | | **Biniau baw ci**<br>Esboniodd y Clerc ei bod eisoes wedi bod mewn cyswllt gyda Swyddog yn Adran Eiddo'r Cyngor Sir yn ceisio gwneud trefniadau i gael caniatâd i osod y biniau ond yn anffodus hyd yn hyn wedi methu a chael unrhyw gytundeb nac rheswm.<br>Awgrymodd yr Aelod Lleol i gysylltu ag adran Priffyrdd Dwyfor - y Clerc i weithredu. |
| **10.** | | **Arwyddion dwyieithog dim gwersylla a dim ysbwriel yn y Maes Parcio ar dop y Nant**<br>Adroddodd y Clerc ei bod wedi gyrru'r templed ymlaen i'r argraffdy ond hyd yn hyn heb gael cadarnhad ei fod yn barod. Y Clerc i gysylltu ymhellach. |

**Commented [GT3]:** Wedi cysylltu eto ond dim ymateb

**Commented [GT4]:** Wedi ei wneud

**Commented [GT5]:** Sieciau wedi ei gyrru

**Commented [GT6]:** Wedi derbyn e.bost gan Catrin angen edrych arno eto

**Commented [GT7]:** Wedi cysylltu ac adran priffyrdd ond heb gael ymateb.

**Commented [GT8]:** Wedi ei bostio i shop ac angen talu bil

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| **11.** | | **Materion lleol** |
| | 11.1 | **Gwrych gyferbyn a siop Llithfaen**<br>Derbyniwyd cwyn am wrych gyferbyn a'r Siop sydd wedi gordyfu ac yn ymahru a thrigolion gerdded ar y palmant. Y Clerc i adrodd am y broblem i'r Cyngor Sir.<br>Y Clerc i ofyn i'r Cyngor hefyd pryd byddent yn cychwyn chwynnu a thocio gwrychoedd. |
| | 11.2 | **Geifr**<br>Adroddodd yr Aelod Lleol am gŵyn oedd wedi ei dderbyn am eifr yn y pentref oedd wedi dod lawr i'r pentref yn dilyn storm Donald a Kira.<br>Trafodwyd oblygiadau perchnogion ac ymdrechion i osgoi hyn yn y blynyddoedd blaenorol.<br>Penderfynwyd fod yn wyliadwrus o'r mater. Yr Aelod Lleol i adrodd yn ôl i'r perchennog. |
| **12.** | | **Gohebiaeth a gwybodaeth** |
| | 12.1 | Cynhadledd Adborth Adroddiad Cenedlaethau'r Dyfodol 2020 |
| | 12.2 | Cyllid Lleoedd Lleol ar gyfer Natur |
| | 12.3 | Eisteddfod Gerddorol Gydwladol Llangollen |
| | 12.4 | Newidiadau i Bolisi Gosod Tai |
| | 12.5 | Adroddiad Blynyddol Drafft Panel Annibynnol Cymru ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2020 |
| | 12.6 | BREXIT - Cyngor i drigolion a busnesau'r sir |
| | 12.7 | Gwybodaeth gan Hosbis Dewi Sant yn y Cartref |
| | | Y Wybodaeth wedi ei rannu gyda'r aelodau - ni dderbyniwyd unrhyw sylwadau |
| **13.** | | **Cyllid** |
| | 13.1 | **Cyfrifon**<br>Adolygwyd a chymeradwywyd y Llyfr arian, Cysoniad banc, a Rhagamcanion 2019/20.<br>Cynigiodd JO eu cywirdeb, eiliodd GW a chytunodd pawb. |
| | 13.2 | **Trafodion y gyfriflen banc diweddaraf**<br><br>**Cyfrif Cyfredol**<br><br>Taliadau - £160.00 Cyflog Clerc<br>£14.00 Treuliau Clerc<br>£96.00 Ail ymaelodi Un Llais Cymru (heb ei dalu hyd yn hyn)<br>Balans - £6,391.12<br><br>**Cyfrif Cadw**<br><br>Derbyniadau – £1.70 Llogau Banc<br>Balans - £3408.06 |

**Commented [GT9]:** Pwy nath gynnig ac eilio

*Llofnodwyd gan........................................................................................Dyddiad......................................................*

| | | |
|---|---|---|
| | 13.3 | **Taliadau a gymeradwywyd yn y cyfarfod**<br><br>£160.00 – Cyflog Clerc<br>£18.63 - Treuliau Clerc<br><br>**Rhoddion**<br>£3,000.00 - Canolfan Llithfaen<br>£705.61 – Cae Chwarae Lithfaen<br>£150.00 – Clwb Ffermwyr Ifanc Godre'r Eifl<br>£600.00 - Gŵyl Ifan<br>£500.00 - Bwyllgor Apêl Cronfa Leol Eisteddfod Genedlaethol |
| | 13.4 | **Derbyniadau**<br>Derbyniwyd £995.40 tuag at y ddiffiblwr gan Sioe Fach Fawr y Clerc I'w rhoi yn y Cyfrif Cadw<br><br>Nodwyd fod y Cyngor yn cadw cronfa wrth gefn ar gyfer y Ganolfan, Cae Chwarae a biniau baw ci |
| ***14.*** | | **Dyddiad y Cyfarfod nesaf**<br>14eg o Ebrill, 2020 – Yn ddibynnol ar ganllawiau yn dilyn y Coronavirus |

**Commented [GT10]:** Gofyn i Sian gan bwy oedd y rhoddion

*Llofnodwyd gan.........................................................................................Dyddiad......................................................*